

Cleifion

Os gwyddoch am unrhyw un o aelodau eglwysi'r Ofalaeth sydd yn yr ysbyty neu heb fod yn dda, a wnewch chi roi gwybod i ni os gwelwch yn dda. Byddwn yn falch o gael gwybod mor fuan â phosibl.

Diolch yn fawr iawn wrth gwrs i bawb sy'n ein helpu yn hyn o beth.

beibl.net

Cofiwch fod gennym yn yr Ofalaeth gopïau o **beibl.net** i'w cael am £10 yn lle £15. Rhowch wybod i mi os ydych eisiau copi.

Anfonwch e-bost os medrwch i john.cilfynydd@btinternet.com; neu os na fedrwch wneud hynny ffoniwch 01286 872390.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Ionawr 24: Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Trefor Jones, Caernarfon.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Ionawr 24: Cynhelir Oedfa Deulu am 10.30 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Ionawr 24: Ni fydd oedfa.

Y mis nesaf - Deiniolen

Ionawr 17

10.00 a.m. - Y Gweinidog
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Ionawr 24

2.00 p.m. - Parchg Trefor Jones

Ionawr 31

2.00 p.m. - Y Parchg Dafydd Hughes

BETHLEHEM

Dydd Sul, Ionawr 24: Cynhelir Oedfa yn Ysgoldy Maesygroes am 2.00 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog.

CARMEL

Dydd Llun, Ionawr 18: Y Dosbarth Gwau rhwng 2.00 a 4.00 o'r gloch.

Nos Wener, Ionawr 22: Dwylo Prysus am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Ionawr 24: Cynhelir yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch ac oedfa am 5.00 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog. Gweinyddir y Cymundeb yn ystod yr oedfa.

CYNLLUN EFE

Dydd Gwener, Ionawr 22: Bydd y Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caeathro am 10.30 o'r gloch.



BEIBL BYW

Y mis nesaf - Llanberis

Ionawr 17


10.00 a.m. - Mr John H Hughes
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa

Ionawr 24

10.30 a.m. - Oedfa Deulu

Ionawr 31

10.00 a.m. - Mr Dewi Jones
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Euros W Jones



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 666: Dydd Sul, 17 Ionawr, 2016

Pa grefydd?

Sut fyddwch chi'n ateb rhywun sy'n holi am eich daliadau crefyddol? Beth fyddwch chi'n ei ddweud, er enghraifft, pan fydd angen llenwi ffurflen sy'n gofyn i chi nodi eich crefydd?

Roedd yna adeg pan fyddai mwyafrif pobl Cymru'n ateb y fath gwestiynau trwy nodi mai 'Eglwyswyr' neu 'Fethodistiaid' neu 'Annibynwyr' (neu ryw enwad arall) oedden nhw. Os oedd hynny'n awgrymu mai'r hyn oedd yn diffinio eu crefydd oedd cysylltiad ag adeilad ac enwad arbennig, yn hytrach na pherthynas â Duw a ffydd bersonol yn Iesu Grist, gellid dadlau nad oedden nhw'n ddyddiau mor llewyrchus â hynny ar Gristnogaeth wedi'r cyfan. Ymlyniad wrth Iesu Grist sy'n dod gyntaf, ac nid ymlyniad wrth gapel nac eglwys nac enwad.

Ond a bod yn gwbl deg, os cofiaf yn iawn nid 'Pa grefydd?' a ofynnid rhai blynyddoedd yn ôl ond 'Pa enwad?' Roedd tuedd i gymryd yn ganiataol mai Cristnogaeth oedd crefydd y rhelyw o bobl Cymru. Ond mae'r dyddiau pan oedd pawb bron yn perthyn i gapel neu eglwys wedi hen fynd heibio. Rydym yn byw mewn cymdeithas wahanol iawn i'r un y mae llawer ohonom yn ei chofio.

Ers tro byd, un grefydd ymhlith llawer yw'r Ffydd Gristnogol yng Nghymru. O ganlyniad, nid 'Pa enwad?' a ofynnir bellach ond 'Pa grefydd?' Gallaf feddwl bod Mwslemiaid a Siciaid ac

Iddewon a dilynwyr sawl crefydd arall yn ateb y cwestiwn hwnnw heb ddim trafferth. Gallaf feddwl fod yr un peth yn wir hefyd am Gristnogion ifanc neu Gristnogion newydd sy'n falch o gael arddel Crist a'r Ffydd Gristnogol.

Ond mae 'Pa grefydd?' yn gwestiwn anodd i lawer. Mae rhai'n amharod i'w galw eu hunain yn Gristnogion gan eu bod yn dal i feddwl mai canmol eu hunain a wnant wrth wneud hynny yn hytrach nag arddel Crist yn Waredwr. Mae gwyleidd-dra anwybodus yn eu hatal rhag arddel y Ffydd.

Mae eraill yn arddel Cristnogaeth fel rhyw fath o 'grefydd ddiodyn'. Mae gan nwyddau o bob math osodiad 'default', sy'n golygu er enghraifft mai Saesneg yw iaith pob cyfarwyddyd ar setiau teledu a ffonau symudol oni bai eich bod yn dewis ei newid. Saesneg yw'r iaith yn ddiodyn. A chrefydd felly yw Cristnogaeth i lawer o bobl, gyda hen ddylanwadau a chysylltiadau brau yn gwneud iddyn nhw feddwl na allan nhw fod yn ddim ond Cristnogion am na wnaethon nhw erioed ddewis unrhyw beth gwahanol. 'Pa grefydd, syr?' 'Cristnogaeth, am wn i!'

I rai, cwestiwn nad oes rhaid ei ateb ydyw am mai rhywbeth cwbl bersonol yw crefydd ac nid peth i'w drafod a'i gyhoeddi a'i rannu.

Ond i ni, gobeithio, mae'n gwestiwn a rydd gyfle bob amser i arddel Crist ac i gyhoeddi ein bod yn perthyn iddo.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm

'Gwyn ei fyd y sawl nad yw'n dilyn cyn-
gor y drygionus nac yn ymdroi hyd
ffordd pechaduriaid nac yn eistedd ar
sedd gwatwarwyr, ond sy'n cael ei
hyf-rydwch yng nghyfraith yr Arglwydd ac
yn myfyrio yn ei gyfraith ef ddydd a
nos' (Salm 1:1).

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon y Sul. Boed
bendith Duw ar ein haddoliad.

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00
o'r gloch gan Mr John Hughes. Bydd yr
Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Bydd
oedfa hefyd am 5.00 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 10.00 a
5.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd
yr oedfa am 5.00 o'r gloch yn Oedfa
Gymundeb.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am
10.30 o'r gloch. Gwasanaethir yn yr
oedfa am 2.00 o'r gloch gan y Parchg

Ddr Sion Aled Owen.

Gwasanaethir yn Nhalybont am 2.00 o'r
gloch gan Y Parchg W. H. Pritchard,
Trearddur. Cynhelir yr oedfa hon yn
Ysgoldy Maesygroes.

Nid oes oedfa yn Nant Peris heddiw.

Diolch i bawb am eu gwasanaeth yn holl
oedfaon yr Ofalaeth yn ystod y dydd.

Cofion

Anfonwn ein dymuniadau gorau at bawb
sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o
bryd.

CIC

Cynhaliwyd CIC yn Capel Coch echnos a
chafwyd cwmni Sion Morris a Carly Dit-
tert o Goleg y Bala unwaith eto. Di-
olch iddynt am ddod atom. Merch o'r
Unol Daleithiau yw Carly, ac mae yma
yng Nghymru am flwyddyn i gael
profiad o waith Cristnogol ac i geisio
dysgu'r Gymraeg.

Cyfarfod Chwarter

Cynhelir Cyfarfod Chwarter Gogledd
Arfon yng nghapel Salem, Llanbedr y
Cennin am 7.00 o'r gloch nos Fercher,
Ionawr 27.

Yn ystod y cyfarfod ceir trafodaeth dan
arweiniad Ysgrifennydd y Cyfundeb, Mr
Ifor Glyn Efans, fel rhan o Drafodaeth
Fawr Undeb yr Annibynwyr. Dyma rai
o'r cwestiynau y bydd Ifor yn eu codi.

*Beth fydd y trefniadau addoli yn eglwysi
Gogledd Arfon ymhen 5 mlynedd?*

*A fydd angen ystyried dwyieithrwydd o
fewn cyfarfodydd arferol ein heglwysi a'r
Cyfundeb?*

*Pa drefniadau a wnawn fel Cyfundeb a /
neu eglwysi unigol ar gyfer Blwyddyn
Beibl Byw?*

*A fydd angen i ni ystyried cyfuno eglwysi
mewn rhai ardaloedd?*

*A ddylid troi adeiladau yn ganolfannau
cymunedol yn ogystal ag addoldai?*

Mae croeso cynnes i bawb i ddod i'r Cyf-
arfod Chwarter.

Pwyllgor yr Ofalaeth

Yn anffodus, daeth yn amlwg fod y ddau
ddyddiad a awgrymwyd ar gyfer cyfarfod
nesaf Pwyllgor Yr Ofalaeth yn cyd-daro
â chyfarfodydd eraill. Awgrymir felly
cynnal y Pwyllgor nos Fercher, Chwefror
10. Os nad yw hwnnw'n hwylus a
wnewch chi roi gwybod i'r Gweinidog ar
unwaith os gwelwch yn dda.

Cronfa Gronyn

O'r cychwyn cyntaf pwysleisiwyd mai
rhan o genhadaeth eglwysi'r Ofalaeth
hon fyddai *Gronyn* yn wythnosol ac y
byddai ar gael i bawb yn rhad ac am
ddim. Ond gan fod amryw wedi mynegi
awydd i'n helpu gyda'r gost o'i argraffu
penderfynwyd rai blynyddoedd yn ôl
erbyn hyn y byddem yn derbyn rhoddion
ariannol at y gwaith hwn.

Er mai ar ddechrau'r flwyddyn newydd
fel hyn yn unig y byddwn yn tynnu sylw
at hyn, mae modd cyfrannu at gostau
Gronyn unrhyw bryd, beth bynnag sydd
fwyaf hwylus. Pwysleisiwn unwaith eto
nad ydym yn disgwyl i neb gyfrannu ond
ein bod yn ddiolchgar wrth reswm am
bob rhodd.

Gellir rhoi'r cyfraniad mewn amlen i'r
Gweinidog os dymunwch (gan nodi
'Gronyn' ar yr amlen).

Y gobaith yw bod cymaint o bobl â
phosibl yn derbyn *Gronyn*. Felly, os
gwyddoch am rywun a fyddai'n hoffi
derbyn copi yn wythnosol, ond nad yw'n
ei dderbyn ar hyn o bryd, cofiwch roi
gwybod i ni.

Llifogydd

Unwaith eto, diolch i bawb yn Nhalybont
a fu'n gofalu am y capel wedi'r llifogydd
a gafwyd drannoeth y Nadolig.

Mae'r peiriannau dal i sychu'r adeilad ar
hyn o bryd. Bydd angen gosod carpedi
newydd ac unedau cegin newydd wedi
sychu a glanhau'r capel a'r festri.

Am 2.00 o'r gloch heddiw daw cynull-
eidfa Bethlehem ynghyd yn Ysgoldy
Maesygroes i gynnal oedfa dan arweiniad
y Parchg W H Pritchard, Trearddur.
Gwerthfawrogwn y gwahoddiad i gyfarfod
yno nes bydd capel Bethlehem yn ail
agor.

Y Sul nesaf, Ionawr 24, bydd y Gweinid-
og yn arwain yr oedfa, ac yna ddydd Sul,
Ionawr 31, bydd yr oedfa yng ngofal y
Canon Idris Tomos, Deiniolen.

Agor y Llyfr

Echdoe roedd aelodau Tim Agor y Llyfr
Deiniolen yn cynnal eu hail wasanaeth yn
Ysgol Gwaun Gynfi. Stori Gardd Eden
oedd yn ei chyflwyno y tro hwn. Cafwyd
croeso a derbyniad cynnes unwaith eto.

Mae aelodau'r tim yn dechrau cynefino
â'r gwaith erbyn hyn ac yn cael hwyl ar
gyflwyno'r storiâu i'r plant. Cynllun yw
'Agor y Llyfr' sy'n galluogi pobl i ad-
rodd storiâu'r Beibl yn syml i blant ysg-
olion cynradd trwy ddarllen y stori o
Feibl plant a defnyddio offer gweladwy
er mwyn dal sylw'r plant.

Cofiwch fod croeso cynnes i eraill ym-
uno â'r tim hwn. Byddai'n dda cael dau
neu dri arall yn rhan o'r tim.

Bydd yr ymweliad nesaf ag Ysgol
Gwaun Gynfi fore Gwener, Chwefror 26.